# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0171(RAF) a gyhoeddwyd gan Elin Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig, Chwefror 2008

**At Nerys Evans:**

Rwy'n cyfeirio at y cwestiwn atodol a godwyd gennych o dan OAQ(3)0217 ar 30 Ionawr, am bysgodfa gocos y Tair Afon.

Rwy'n ymwybodol o bryderon Grŵp Gweithredu Aber Tair Afon a'r materion gorchmynion cyhoeddus sy'n ymwneud â'r bysgodfa gocos yn ardal y Tair Afon. Fel mae'n siŵr y gwyddoch, mae'r bysgodfa hon yn bysgodfa gyhoeddus a reolir o dan is-ddeddfau Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru (SWSFC) ac mae'r bysgodfa ar gau ar hyn o bryd.

Yn ystod y blynyddoedd a fu, mae'r bysgodfa wedi denu nifer fawr o gasglwyr cocos a thorrwyd gorchmynion cyhoeddus yn ddifrifol. O ganlyniad, mae'r SWSFC wedi gwneud cais i Lywodraeth Cynulliad Cymru am Orchymyn Rheoleiddio, ac mae ystyriaeth yn cael ei roi i hyn.

Bu cryn oedi cyn cyflwyno'r Gorchymyn Rheoleiddio hwn, nid lleiaf oherwydd y trafodaethau hirfaith rhwng fy swyddogion, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r SWSFC ynghylch y camau priodol y dylai pob un eu cymryd er mwyn sicrhau bod y cais yn llwyr fodloni gofynion amrywiol Gyfarwyddebau'r UE. Yn fwy diweddar, cafwyd oedi yn sgil y trafodaethau parhaus rhwng y Cyngor Cefn Gwlad a'r SWSFC am yr angen neu fel arall am Asesiad Priodol o dan Reoliad 48 o Reoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol etc). Yn ôl a ddeallaf, mae'r materion hyn wedi'u datrys ac yn ddiweddar mae'r Cyngor Cefn Gwlad wedi darparu data i Lywodraeth Cynulliad Cymru, a gasglodd gyda'r SWSFC, ac mae fy swyddogion wedi anfon y data ymlaen i Ganolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu i ymgymryd ag Asesiad Priodol ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rhagwelir y dylai'r asesiad hwn fod wedi'i gwblhau erbyn canol Ebrill, ac yn amodol ar gasgliadau'r asesiad, dylai Gorchymyn fod yn ei le erbyn haf 2008.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0185(RAF) a gyhoeddwyd gan Elin Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig, ar 6 Chwefror 2008

**At Sandy Mewies:**

Cyfeiriaf at eich cwestiwn llafar ar 30 Ionawr 2008 am y camau sy'n cael eu cymryd i fonitro math H5N1 o'r ffliw adar yng Nghymru (OAQ(3)0185(RAF)). Cytunais i ysgrifennu atoch am fonitro H5N1 mewn adar gwyllt yn ardal Glannau'r Dyfrdwy.

Yn ôl fy swyddogion, mae patrolau'n cael eu cynnal ar nifer o safleoedd yn ardal Glannau'r Dyfrdwy. Mae dwsin o'r safleoedd hyn yn agos iawn i Aber y Dyfrdwy, neu ar ei glannau, ac mae dau arall hefyd (un i'r de yn Sir y Fflint ac un arall ger Wrecsam). Mae hyd at 16 patrôl wedi cael eu cynnal ar bob safle rhwng 3 Medi 2007 a 28 Ionawr 2008. Hefyd, mae Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain wedi bod yn weithgar yn yr ardal, ac wedi casglu samplau o adar a laddwyd yn Aber y Dyfrdwy fel mater o drefn rhwng Medi a Rhagfyr 2007.